

PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 16 HYDREF 2019

Yn Cynghorydd Walker(Cadeirydd)

bressenol:

Cynghorwyr Berman, Bowen-Thomson, Henshaw, Lister,
Mackie a/ac McKerlich

31 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim un wedi'u derbyn. Nodwyd bod dwy swydd wag ar ôl ar y Pwyllgor.

32 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim un wedi'u derbyn.

33 : BREXIT

Dyweddodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau y byddai'r eitem hon, yn unol â chyfrifoldeb y Pwyllgor hwn, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am barodrwydd y Cyngor o ran "Brexit heb Gytundeb", a'r goblygiadau ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor ac yn mynd i'r afael â goblygiadau ymadawiad heb gytundeb o'r Undeb Ewropeaidd (UE), gan gynnwys meysydd o ddiddordeb megis:

- cynlluniau parhad busnes;
- trefniadau cynllunio brys;
- cydnerthedd y gadwyn gyflenwi;
- cynllun Setliad yr UE

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd; Paul Orders, Prif Weithredwr; Gareth Newell, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau a Gavin Macho, Prif Reolwr Cynllunio Brys i'r cyfarfod.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Arweinydd, y Cynghorydd Huw Thomas i wneud datganiad lle dywedodd mai mater newidiol oedd hwn, a'i bod yn bwysig hefyd adnewyddu'r ffordd y mae'r Cyngor yn ymgysylltu â sefyllfa posibl Brexit Heb Gytundeb. Roedd hefyd yn bwysig cynllunio, paratoi ac ymateb i unrhyw fath o Brexit. Roedd y materion wedi'u trafod yn y BGC; ac roedd Brexit Heb Gytundeb ar gofrestr risg y Cyngor. Y prif faterion oedd Cynllun Setliad y DU; pryder ynghylch Troseddau Casineb; materion yn ymwneud â'r farchnad lafur a Chronfeydd Strwythurol.

Rhoddodd y Prif Weithredwr gyflwyniad ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau oddi wrth yr Aelodau;

Gofynnodd yr Aelodau a oedd y parhad busnes wedi'i ddiweddarau ac a oedd yn fwy o ran sgôp. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod Swyddog Parhad Busnes y Cyngor yn siarad â phob Cyfarwyddwr, wedi siarad â chadwyni cyflenwi ac wedi nodi risgiau penodol i Brexit, ac wedi derbyn sicrwydd ysgrifenedig ar bopeth sy'n hysbys. Mae swyddogion yn hyderus ac wedi cael sicrwydd ar y lefel uchaf mewn perthynas â thanwydd/nwy/trydan. Roedd angen tawelu meddwl dinasyddion Caerdydd a rheoli'r

sefyllfa mewn ffordd synhwyrol a pherthnasol. Dywedwyd wrth yr Aelodau y gallai fod prinder stoc bwyd ffres, ond edrychwyd ar hyn mewn perthynas ag ysgolion a phrydau ar glud ac ati a gellir defnyddio dewisiadau addas wedi'u rhewi os oes angen.

Nododd yr Aelodau na all y Cyngor reoli'r prynu panig a gofynnodd a oes system gyfathrebu wedi'i sefydlu i fynd i'r afael â hyn. Cynghorodd swyddogion fod swyddog cyfathrebu'r Cyngor yn ymgysylltu, gan anfon negeseuon calonogol ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae gan y Fforwm Cydnerthedd Lleol swyddogaeth gyfathrebu hefyd, ac roedd swyddog cyfathrebu'r Cyngor yn rhan o hyn a byddai'n atgyfnerthu'r negeseuon cadarnhaol wrth symud ymlaen.

Cyfeiriodd Aelodau at y gyfran o staff yn y gwasanaethau cymdeithasol sy'n wladolion yr UE, ac yn ogystal â'r swyddi gwag presennol gallai fod risg posibl i gynnal gwasanaethau yn y dyfodol. Cytunodd yr Arweinydd mai darllen digalon iawn ydoedd ond bod paratoad proffesiynol yn digwydd. Ychwanegodd ei fod yn gwestiwn anodd i'w ateb gan nad oedd unrhyw farn bendant am y berthynas fewnfudo yn y dyfodol â gwledydd yr UE a rhai nad ydynt yn yr UE. Roedd sôn am gytundebau masnach ond mae'n debygol y byddai'r rhain yn dod â chafeatau. Dywedodd ei bod yn anodd i'r Cyngor gymryd golwg tymor hir ar gyflogaeth ond ei bod yn bwysig ceisio datblygu gweithlu Caerdydd drwy'r cynllun 'I Mewn i Waith'. Dywedodd ei fod fel chwilio yn y tywyllwch am rywbeth.

Nododd yr Aelodau fod y paratodau a amlinellwyd yn rhai pragmatig ac y dylid eu monitro'n fanwl. Roedd aelodau o'r farn y byddai hyn yn effeithio ar gyllideb gytbwys y Cyngor ac efallai y bydd angen torri cynlluniau gwariant. Dywedodd yr Arweinydd fod y sefyllfa o ran arian cyfred yn effeithio ar y llinell waelod eisoes, ychwanegodd fod cyfleoedd mewn ansicrwydd ond bod ffactorau risg yn drech na'r rhain, yn enwedig amrywiadau o ran arian cyfred.

Gofynnodd yr Aelodau pryd y bydd gwybodaeth yn cael ei rhoi i bobl gan eu bod eisoes yn bryderus, a gofynnwyd a oedd swyddogion yn aros tan 31 Hydref. Dywedodd y Prif Weithredwr fod problem bob amser gydag ymgyrchoedd cenedlaethol sylweddol, bod angen eu hategu gan wybodaeth leol, er enghraifft Cynllun Setliad yr UE, ni chafwyd llawer o fanteisio arno. Hefyd gyda busnes mewn perthynas â chyfundrefnau masnach/allforio a pha amhariad a gâi Brexit Heb Gytundeb ar amgylchedd sy'n seiliedig ar reolau o'r fath; roedd angen gwybodaeth o ansawdd. Ychwanegodd swyddogion fod hyn yn drafodaeth aml – i rybuddio a pheidio â dychryn pobl; roedd yn anodd gwneud hyn ac nid oedd ateb syml. Sicrhaodd y swyddogion yr Aelodau fod pawb wedi paratoi a bod yr holl faterion “anhysbys hysbys” yn cael eu trin. Esboniodd yr Arweinydd fod trafodaethau wedi'u cynnal â'r BGC a bod naratif o sicrwydd gan wahanol bartneriaid yn y sector cyhoeddus. Roedd Aelodau o'r farn bod hwn yn ddull cyson a synhwyrol ac roeddent yn awyddus i'r ysgolion gymryd rhan hefyd.

Mewn perthynas â chynllun setliad yr UE (sef yr EUSS), holodd yr Aelodau ynghylch goblygiadau posibl peidio â llofnodi a gofynnwyd beth oedd yn cael ei wneud o ran ymgysylltu â'r gymuned. Eglurodd swyddogion fod y tîm Cydlyniant Cymunedol yn ymgysylltu â'r boblogaeth fudol a bod digwyddiadau wedi'u hyrwyddo i hysbysu pobl o'r EUSS. Ychwanegodd swyddogion fod staff yn ymwybodol o'r bobl sydd angen gwneud cais i'r cynllun; mae amrywiaeth o ddarparwyr a gwahanol lefelau o gymorth yn dibynnu ar gymhlethdod yr achos. Roedd data Yswiriant Gwladol yn cael ei

ddefnyddio ar gyfer dosbarthu taflenni wedi'u targedu ac roedd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda pherchnogion busnesau mudol. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei bwydo yn ôl i Lywodraeth Cymru; y dyddiad cau yw diwedd Rhagfyr 2020 os oes cytundeb; os nad oes cytundeb, byddai hyn yn fwy cyfyng. Roedd y data diweddaraf yn dangos bod yna 30 mil o Gymru wedi bod hyd yn hyn gyda 10 mil yn y mis diwethaf.

Gofynnodd yr Aelodau, am y 30 mil a oedd wedi ymgeisio hyd yn hyn, pe baent i gyd wedi'u caniatáu. Dim ond gwybodaeth ar draws y DU oedd gan swyddogion, a ddangosodd fod 60% ar gam setlo a 40% ar y cam cyn setlo; gall y rheini sydd yn y cyfnod cyn setlo wneud cais am setliad yn nes ymlaen.

Gofynnodd yr Aelodau am ba hyd y byddai'r Cynllun Brys Parhad Busnes mewn grym. Dywedodd y swyddogion fod yr holl Uwch Dîm Rheoli ar y rota; byddai'n digwydd cyhyd ag y bo angen. Byddai Swyddog Aur ar rota bob wythnos gyda Swyddog Arian penodol ar gyfer Brexit. Caiff swyddogion eu briffio ac maent yn edrych allan am achosion o golli gwasanaeth. Anfonir gwybodaeth i'r Fforwm Cydnerthedd Lleol, yna i Lywodraeth Cymru, yna i Lundain i brosesu ar gyfer tueddiadau cenedlaethol. Byddai swyddogion yn edrych i weld a yw busnesau'n dal i redeg, sut yr effeithir ar y rhai mwyaf agored i niwed a sut y gellir mynd i'r afael â hyn. Sicrhawyd Aelodau bod swyddogion yng Nghaerdydd wedi arfer delio â digwyddiadau mawr a bydd y sgiliau a ddysgir yn berthnasol i faterion posibl Brexit Heb Gytundeb, er enghraifft sgiliau logisteg.

Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth am yr hyn y mae'r Cyngor wedi'i wario ar baratoi ar gyfer Brexit. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y paratodau wedi cael eu gwneud yn helaeth o fewn yr adnoddau presennol, gyda pheth adnoddau'n cael ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru, er enghraifft rôl y Cydlynnydd Brexit; cafwyd effeithiau ar y gyllideb ar draws y Cyngor ond nid oedd ffigwr penodol. Dywedodd yr Arweinydd y caiff ymarfer ei gynnal i bennu costau pan fydd pethau wedi tawelu.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at Aelodau'r Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

34 : YMGYNGHORIAD AR GYLLIDEB 2020-21

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r eitem hon yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried a gwneud sylwadau ar y fethodoleg sy'n cael ei datblygu ar gyfer ymgynghoriad 2020 ar y gyllideb, 'Newid i Gaerdydd'. Fis Rhagfyr diwethaf, bu'r Pwyllgor yn ystyried dull y Cyngor o ymgynghori ar y gyllideb, ac yn dilyn hynny gwnaeth y Pwyllgor sylwadau i'r Cabinet bod cyfle i wella.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver, Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad; Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, Gareth Newell, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau a Sian Sanders, Rheolwr Gweithredol, Cydlyniant ac Ymgysylltu â'r Gymuned i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Weaver i wneud datganiad lle dywedodd ei fod wedi cael sylwadau defnyddiol gan Bwyllgorau Craffu'r llynedd; Roedd wedi cyfarfod â Chadeiryddion Craffu, ac roedd y fethodoleg wedi'i datblygu ynghyd â'r cynigion ar gyfer yr ymgynghoriad.

Rhodddwyd cyflwyniad i'r Aelodau ac wedi hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau oddi wrth yr Aelodau;

Nododd yr Aelodau ei bod yn wir nad ymgynghorir ag Aelodau tan ar ôl cyhoeddi'r dogfennau ymgynghori, gan roi enghraifft o'r arolwg Holi Trigolion Caerdydd; a gofynnwyd sut y gellid osgoi hyn a sut y gallai craffu fwydo i mewn i'r broses yn gynharach. Dywedodd swyddogion, mewn perthynas â Holi Caerdydd, y byddai hynny'n cael ei ailgyflwyno yn y gwanwyn neu'r haf y flwyddyn nesaf i'w adolygu. Ar gyfer ymgynghoriadau cyffredinol cytunodd y swyddogion y byddent yn fodlon i'r Pwyllgor Craffu eu hadolygu cyn iddynt gael eu cwblhau. Mewn perthynas â'r Ymgynghoriad ar y Gyllideb, dywedodd swyddogion fod hyn yn anodd gan fod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn weddol hwyr yn yr amserlen; cafwyd trafodaeth gynnar ynghylch y fethodoleg ond o ganlyniad i setliad hwyr, byddai'n rhaid gohirio'r amserlenni. Awgrymodd yr Aelodau y gellid cyflwyno drafft i gyfarfod nesaf y Pwyllgor os bydd yr agenda'n caniatáu, neu gallai swyddogion ddsbarthu drafft i Aelodau'r Pwyllgor i gael eu sylwadau arno.

Roedd yr Aelodau'n croesawu'r methodolegau cymysg ac yn gofyn a edrychwyd ar y cyfraddau ymateb blaenorol. Dywedodd swyddogion eu bod yn defnyddio dulliau mwy dwys o ran adnoddau i ymgysylltu â'r carfannau hynny â chyfraddau ymateb isel. Dywedodd swyddogion y bydd adolygiad ar ddiwedd y broses yn bwysig iawn, ac er enghraifft archwilio lleoliadau ar gyfer ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Roedd aelodau o'r farn bod y gyllideb yn aml yn ymddangos yn fait accompli a byddai'n well cael rhywfaint o hyblygrwydd yn y cyfnod ymgysylltu ar gyfer unrhyw beth sy'n codi'n eang, a chael cyfle i'w newid. Dywedodd yr Aelod Cabinet ei fod bob amser yn anodd ac y gall greu teimladau cryf iawn. Mae angen ymgynghori ar gynnigion cyllideb penodol iawn; mae'n bwysig cael barn meysydd blaenoriaeth y cyhoedd dros y blynyddoedd, er ei bod yn her bob amser. Dywedodd swyddogion fod amseriad arolwg Holi Caerdydd ym mis Tachwedd wedi bod yn ddefnyddiol gan y byddai safbwyntiau ar wasanaethau yn bwydo i mewn i'r ymgynghoriad ar y gyllideb yn y flwyddyn newydd. Cytunodd swyddogion i rannu rhai ymatebion cychwynol o arolwg Holi Caerdydd gyda'r Pwyllgor cyn y Nadolig.

Gofynnodd yr Aelodau sut yr oedd swyddogion yn bwriadu gwerthuso'r ymatebion o grwpiau anodd eu cyrraedd; a fyddent yn cael eu cymryd yn y rownd neu'n cael eu hystyried yn benodol. Cynghorodd swyddogion y byddai'r tîm ymchwil yn cadw hyn mewn cof wrth edrych ar y canlyniadau, byddent yn ystyried y darlun haenog o wahanol breswylwyr, gwahanol wardiau ac ati. Roedd swyddogion yn cydnabod bod angen mwy o grwpiau ffocws neu sesiynau un i un. Byddai cymysgedd o ganfyddiadau ar lefel ronynnog a lefel uchaf er mwyn nodi anghyfartaledd yn y darlun ehangach.

Gofynnodd yr Aelodau sut y diffiniwyd y ddemograffeg. Eglurodd y swyddogion eu bod wedi'u nodi drwy gwestiwn monitro cydraddoldeb safonol ar ddiwedd pob arolwg. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai swyddogion yn edrych y tu allan i hyn, er enghraifft pobl ddigartref ac adrannau eraill o'r gymuned. Esboniodd swyddogion eu bod wedi gweithio gyda'r trydydd sector o'r blaen gan edrych ar grwpiau is-ddemograffig fel menywod o leiafrifoedd ethnig, ceiswyr lloches ac ati felly mae ganddynt y gallu i wneud hyn.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

Dyweddodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn ystyried diweddariad ar sefyllfa monitro ariannol y Cyngor fel oedd ym mis 4 o 2019/20. Atgoffwyd yr Aelodau bod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Cabinet ar 26 Medi 2019; cytunwyd y dylai pob cyfarwyddiaeth sy'n nodi gorwariant ar hyn o bryd roi cynlluniau gweithredu ar waith i leihau'r gorwariant a ragwelwyd.

Roedd rheolwyr dau o'r gwasanaethau â gorwariant nodedig wedi'u gwahodd i ymuno â'r panel tystion, David Lowe mewn perthynas â Rheoli Cyfleusterau a Stephen Melhuish mewn perthynas â Rheoli'r Fflyd.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver, Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad; Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, Ian Allwood, Pennaeth Cyllid; David Lowe, Rheolwr Gweithredol, Rheoli Cyfleusterau; a Stephen Melhuish, Rheolwr Trafnidiaeth i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

Nododd yr Aelodau fod y ffigyrau ym mis 4, sef dim ond 5/6 mis ar ôl pasio'r gyllideb, eisoes yn dangos amcanestyniad o werth 6.29 miliwn o ddiffyg a gofynnwyd a oedd y gyllideb eisoes yn anghytwys. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod cryn dipyn o resymau am hyn; roedd cyfran fawr o ran Gwasanaethau Cymdeithasol, roedd llawer o gynigion yn seiliedig ar wyro galw, ond mae'n wasanaeth a arweinir gan anghenion ac roedd y galw yn uwch na'r disgwyl. Roedd problemau hefyd o ran rheoli gwastraff, ffactorau allanol fel y farchnad ailgylchu a ffactorau mewnol megis adolygu rheolaeth. Yn gyffredinol, rhagamcanwyd gorwariant o £325 mil, ond nodwyd bod gorwariant cyfarwyddiaethau yn sylweddol iawn.

Roedd aelodau o'r farn, gyda chynifer o elfennau anhysbys yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, a'u bod yn methu â rhagfynegi'r galw, yna efallai y byddai'n well peidio â chynnig arbedion. Awgrymwyd y dylid edrych ar batrwm gwariant Gwasanaethau Cymdeithasol yn hytrach na dibynnu ar y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol pan fyddai o dan bwysau i wneud arbedion. Esboniodd swyddogion fod rhai meysydd yn y Gwasanaethau Cymdeithasol y gellir eu darogan ond na allant gyda llawer ohonynt, megis grwpiau o frodyr a chwiorydd plant sy'n derbyn gofal, lle y gall newid bach gael effaith sylweddol ar y gyllideb. Mae mis 4 i fod i nodi pwysau, gwthio am weithredu a lliniaru; mae swyddogion wedi gallu dod â'r sefyllfa gyffredinol yn agos iawn a byddant yn parhau i wneud hynny er gwaethaf anwadlwrwydd o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol. Pan ofynnwyd am ddefnyddio tueddiadau yn hytrach na rhagfynegi unrhyw beth anhysbys, dywedodd swyddogion nad ydynt yn gallu rhagweld y tueddiadau, maent yn gweithio'n galed iawn i lunio strategaeth gadarn ar gyfer y gyllideb a fyddai'n cael ei thrafod gan Aelodau yn ystod y misoedd nesaf; ailadroddodd y Swyddogion eu bod yn cydnabod yr heriau.

Nododd yr Aelodau nad yw ychydig o dan un rhan o dair o'r arbedion y cytunwyd arnynt yn y gyllideb yn mynd i gael eu cyflawni; mae hyn wedi digwydd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf a gofynnodd yr Aelodau a oedd gwersi'n cael eu dysgu. Roedd aelodau o'r farn bod Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd fel pe bai wedi colli rheolaeth ar y gyllideb mewn sawl ffordd megis rheoli gwastraff a fflyd; nid yw'r cyngor a roddwyd i gynghorwyr ynghylch pa arbedion y gellid eu cyflawni wedi'i dod i'r amlwg a chafwyd trafodaeth ynghylch defnyddio cynlluniau wrth gefn yn lle

cynigion arbedion cadarn. Ymatebodd yr Aelod Cabinet gan ddweud bod y materion sy'n ymwneud â gorwariant mewn gwasanaethau cymdeithasol yn fater cenedlaethol ac anogwyd aelodau i fynychu sesiwn friffio gan Aelodau a drefnwyd ar y mater hwn. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet y gall un plentyn ddod â chyllideb o chwe ffigwr, a grŵp o frodyr a chworydd yn sylweddol fwy. Derbyniodd fod yn rhaid gwneud mwy ac mae angen craffu ar y cynllun strategol.

O ran Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, nododd yr Aelod Cabinet na chyflawnwyd yr arbedion a gyflwynwyd, mewn rhai achosion yn llawn; roedd o'r farn bod hwn yn faes o bryder mawr a'i fod am weld cyfnod cynllunio mwy manwl, i sicrhau cynigion a'u dilyn. Nododd fod rheolaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd yn cael ei hadolygu a bod trefniadau pontio yn cael eu cynnal ar hyn o bryd. Mewn perthynas â'r defnydd o arian wrth gefn, dywedodd yr Aelod Cabinet ei bod yn mynd yn anos gwneud arbedion ac ymdrin â digwyddiadau gan fod y gallu i ymdopi â gorwariant wedi mynd. Ychwanegodd, fodd bynnag, fod y Cyngor wedi arbed miliynau dros y blynyddoedd, a bod y gwasanaethau i'r cyhoedd ar y cyfan heb eu newid. Pan wneir arbedion o'r fath mewn, er enghraifft, Hamdden mae'r arbediad yn cael ei fancio ac yna nid yw'n helpu yn y blynyddoedd i ddod; ar gyfer arbedion cronol mae yna elfen o risg y mae'n rhaid i chi ei hysgwyo.

Trafododd yr Aelodau'r ffaith bod ffigyrau mis 4 yn mynd hyd at ddiwedd mis Gorffennaf, mae'n Hydref erbyn hyn, felly roedd y ffigyrau'n rhai hanesyddol. Gofynnodd yr Aelodau am y ffigyrau cyfredol ac fe'u cynghorwyd, gan fod toriad yr haf wedi bod, bod y ffigyrau hyn yn cael eu gweithio arnynt ac y byddent yn cael eu rhoi gerbron y Cabinet yn fuan. Roedd Aelodau o'r farn ei bod yn bwysig gweld sut mae Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd yn gwneud a monitro'r diffyg ar sail gyflymach er mwyn sicrhau mwy o reolaeth.

Mewn perthynas â Rheoli Cyfleusterau yn benodol, hysbyswyd yr Aelodau o'r gwahanol ffyrdd yr oeddent yn ceisio sicrhau effeithlonrwydd megis y gangen ddiogelwch yn mynd i'r ARC, diogelwch Ffordd Brindley yn cael ei ddisodli gan dechnoleg yn yr ARC, ac y byddai cyfleoedd yn mynd ymlaen gyda chydgrynhoi adeiladau craidd. Roedd yr Aelodau'n pryderu nad oedd arian yn y gyllideb i'r pethau hyn ddigwydd. Dywedodd swyddogion fod y gorwariant tua £500 mil ac o ganlyniad i gynydd mewn costau diogelwch ac ynni. Dywedodd swyddogion fod y diogelwch a ddarperir yn yr adeilad craidd yn dibynnu ar ofynion gweithredol.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd y cynnydd mewn costau ynni yn deillio o ddefnydd cynyddol neu fargen ynni waeth na'r disgwyl. Cynghorodd swyddogion fod y tîm ynni wedi trosglwyddo i'r ardal Landlordiaid Corfforaethol er mwyn gwella'r ffocws, roedd angen gwella'r broses o reoli ynni mewn adeiladau ond mae'n debyg mai cyfuniad o'r ddau beth ydoedd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y gorwariant mewn diogelwch yn £200 mil a bod ynni ar £180 mil, pan ofynnwyd pam roedd y costau diogelwch yn uwch na'r rhai a gyllidebwyd, nododd swyddogion mai'r rheswm oedd cyfrifon masnachu a chleientiaid a gwneud arbedion effeithlonrwydd oedd hyn; cyfaddefodd swyddogion ei bod yn her ac y byddent yn canolbwyntio ar hyn.

O ran Gwasanaethau Ffilyd yn benodol, hysbyswyd yr aelodau o'r cefndir o orfod ymgymryd â'r ffilyd sbwriel a gwaith cynnal a chadw. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y ffigyrau cyfredol yn dangos sefyllfa well ers Mis 4.

Nododd yr Aelodau fod y Pwyllgor wedi craffu ar fethiant y contractwr y llynedd ac y dylai'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer y llynedd fod wedi'i gynnwys eleni. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ei fod ar hyn o bryd yn cefnogi Stephen Melhuish yn y Gwasanaethau Trafnidiaeth Gorfforaethol; nododd fod y targed defnyddio yn anodd iawn ei gyflawni, ei fod wedi'i nodi fel Gwasanaethau Trafnidiaeth Gorfforaethol ond ei fod ar draws y Cyngor ac yn ymwneud â defnydd yr holl gerbydau. Roedd angen ychwanegu hyn at strategaeth y gyllideb ar gyfer y dyfodol. Ychwanegodd y bydd yn creu grŵp ar draws yr awdurdod i edrych ar y defnydd o gerbydau. Gellid gwneud arbedion drwy leihau nifer y cerbydau sydd mewn stoc, gan ystyried prynu yn erbyn prydles i a cherbydau trydan.

Roedd aelodau o'r farn bod angen i'r lefel hon o her gael ei chyflawni y tu allan i'r Pwyllgor ar lefel uwch reoli.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

36 : BLAENRAGLEN WAITH

PENDERFYNWYD cytuno ar yr eitemau agenda dros dro ar gyfer mis Tachwedd a Rhagfyr 2019.

37 : GOHEBIAETH

PENDERFYNWYD nodi'r ohebiaeth rhwng y Pwyllgor a'r Cabinet.

38 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Roedd y Cadeirydd yn dymuno gwneud dau gyhoeddiad.

Roedd trafodaethau rhaglennu gwaith pwyllgorau yn cynnwys cwmpasu gwaith mwy manwl ar yr heriau a wynebier gan reoli gwastraff, ar y cyd â Phwyllgor Craffu'r Amgylchedd. Mae'r aelodau Cabinet ac uwch swyddogion wedi cynnig sesiwn frifio anffurfiol i'r ddau Bwyllgor er mwyn hwyluso trafodaeth sgopio. Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd hyn yn mynd rhagddo ddydd Mawrth 5^{ed} Tachwedd 2019. Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn para rhwng un awr a hanner a dwy awr, o 4:30pm - 6:00pm.

Yn ail, ar gyfer yr Aelodau hynny sy'n awyddus i gymryd rhan yng ngwaith Panel Perfformiad y Pwyllgor, byddai swyddog cymorth y Pwyllgor yn gofyn cyn bo hir i Aelodau gael cyfarfod ar ddiwedd mis Tachwedd/dechrau mis Rhagfyr. Mae hwn yn gyfarfod ychwanegol o'r panel sy'n cynnwys pob Cadeirydd Craffu, i ystyried adolygiad hanner blwyddyn o berfformiad yn erbyn targedau'r Cynllun Corfforaethol.

39 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

13 Tachwedd 2019 am 4:30pm

Daeth y cyfarfod i ben am 7.30 pm